Rhan E – Pleidleisio absennol

Cynnwys

1 Ceisiadau
- Cymhwysedd
- Cynnwys y ffurflenni a'u cyflenwad
- Derbyn ceisiadau
- Prosesu ceisiadau am bleidleisiau absennol
- Apeliadau
- Cynnal y cofnod pleidleisio absennol
- Storio ceisiadau am bleidleisiau absennol

2 Amserlen pleidleisio absennol
- Amserlen ar gyfer pleidleisio absennol
- Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau cyn etholiad

3 Cyfleu gwybodaeth am bleidleisio absennol

4 Pleidleisio drwy ddirprwy
- Ceisiadau am ddirprwy am gyfnod penodol neu amhenodol
- Ceisiadau am ddirprwy ar gyfer etholiad penodol
- Gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy
- Ardystiad
- Cymwysterau ar gyfer gweithredu fel dirprwy
- Cydnabod ceisiadau am bleidlais drwy ddirprwy a phleidlais bost drwy ddirprwy
- Pleidleisio drwy'r post fel dirprwy
- Newid neu ganslo trefniadau dirprwy
- Dirprwyon ar gyfer argyfyngau meddygol
- Ymholiadau

5 Pleidleisio drwy'r post
- Gwneud cais i bleidleisio drwy'r post
- Hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad ceisiadau i bleidleisio drwy'r post
- Ailgyfeirio papurau pleidleisio drwy'r post
- Newid enw
- Newid neu ganslo trefniadau pleidleisio drwy'r post

6 Ildiadau

7 Marcio cofrestrau gorsafoedd pleidleisio

8 Cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol
Dyletswydd i gynnal cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol
Cyflenwi ac archwilio cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol

9 Materion uniondeb
Pleidleisio drwy'r post, tai mewn amlddaliadaeth a sefydliadau amlddaliadaeth eraill

10 Adnoddau
Cyfarwyddiadau i aelodau o staff dros dro sy'n gysylltiedig â derbyn a gwirio ffurflenni cais pleidleisiau absennol

Ceisiadau

Cymhwysedd

1.1 Gall unrhyw etholwr ar y gofrestr etholwyr wneud cais am bleidlais absennol ar gyfer yr etholiadau hynny y mae ganddo'r hawl i bleidleisio ynddynt. Gellir gwneud ceisiadau am bleidlais absennol (drwy'r post neu drwy ddirprwy) am gyfnod amhenodol, am gyfnod penodol neu ar gyfer etholiad penodol.

1.2 Mae gan bob etholwr cofrestredig yr opsiwn i bleidleisio drwy'r post. Fodd bynnag, yn achos ceisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy, mae'n rhaid bodloni gofynion o ran y rhesymau dros y cais a'r ardystiad, sy'n dibynnu ar b'un a yw'r cais am un etholiad neu gyfnod hirach.

Rhoddir manylion llawn y gofynion ar gyfer ceisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn Adran 4, 'Pleidleisio drwy ddirprwy'.

Cynnwys y ffurflenni a'u cyflenwad

1.3 Nid yw'r ffurflen gais ar gyfer pleidlais absennol yn rhagnodedig, er bod angen cyflwyno gwybodaeth mewn fformat penodol ar rai rhannau o'r cais.

1.4 Rhaid cynnwys llawer o wybodaeth ar gais am bleidlais absennol, o dan y gyfraith. O dan amgylchiadau arferol, rhaid gwneud y cais yn ysgrifenedig a'i ddyddio, a chynnwys y wybodaeth ganlynol:[1]

- enw llawn yr etholwr
- y cyfeiriad lle mae'r etholwr wedi'i gofrestru (neu wedi gwneud cais i gofrestru) i bleidleisio
- llofnod yr etholwr
- dyddiad geni'r etholwr
- p'un a yw'r cais am etholiad penodol, cyfnod penodol neu gyfnod amhenodol, ac os yw am gyfnod penodol dylai nodi'r cyfnod hwnnw
- p'un a yw ar gyfer etholiadau Seneddol, etholiadau llywodraeth leol neu'r ddau
- yn achos cais am bleidlais bost, y cyfeiriad y dylid anfon y pecyn pleidleisio drwy'r post iddo, ac os nad hwn yw'r cyfeiriad cofrestredig, y rheswm dros ailgyfeirio
- yn achos cais am bleidlais drwy ddirprwy, enw llawn a chyfeiriad y dirprwy
- yn achos cais am bleidlais drwy ddirprwy, y rhesymau y mae'r ymgeisydd yn honni bod ganddo'r hawl i bleidlais drwy ddirprwy

[1] Rheoliad 51, RhCyB 2001; Paragraff 1, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007; Rheoliad 3, Rheoliadau CyB (Pleidlais Amgen) (yr Alban); Paragraff 1, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.

1.5 Pan na all ymgeisydd roi llofnod, rhaid iddo roi rhesymau gyda'i gais dros ofyn am i'r gofyniad i roi llofnod gael ei ildio, ynghyd ag enw a chyfeiriad unrhyw un sydd wedi'i gynorthwyo i gwblhau'r cais.[2] Mae rhagor o wybodaeth am y weithdrefn ildio ar gael yn Adran 6, 'Ildiadau', isod.

1.6 Er nad oes ffurflen ragnodedig ar gyfer gwneud cais am bleidlais absennol, mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r manylion adnabod personol ar y cais (h.y. y llofnod a'r dyddiad geni) gael eu nodi mewn modd sy'n ddigon clir a diamwys i allu sganio'n electronig ar gofnod y Swyddog Cofrestru Etholiadol, drwy ffurfweddu'r wybodaeth fel a ganlyn: [3]

- bydd y llofnod yn ymddangos yn erbyn cefndir o bapur gwyn heb linellau sy'n 5cm o hyd ac yn 2cm o uchder o leiaf, a
- caiff dyddiad geni'r ymgeisydd ei ffurfweddu'n rhifiadol yn y drefn dyddiad, mis a blwyddyn, h.y. DD MM BBBB

1.7 Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chyfyngu i'w gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth gael ei ffurfweddu yn y ddwy ffordd uchod. Nid yw'n golygu y gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol osod unrhyw amodau eraill ar y ffordd y caiff y wybodaeth ei ffurfweddu, hyd yn oed os byddai gwneud hynny'n ei gwneud yn haws sganio'r manylion adnabod: er enghraifft, ni all y Swyddog Cofrestru Etholiadol orchymyn bod papur ar gyfer cais o drwch neu liw penodol. Cyhyd â bod meysydd y manylion adnabod yn cynnwys y cyferbyniad gofynnol a bod y cais yn bodloni'r holl ofynion deddfwriaethol eraill, rhaid derbyn y ffurflen.

1.8 Nid oes rhaid gwneud cais am bleidlais absennol ar ffurflen benodol, er bod yn rhaid i'r manylion adnabod personol a ddarperir fod yn glir ac yn ddiamwys, o dan bob amgylchiadau, drwy gael eu ffurfweddu fel y bo'n ofynnol o dan y rheoliadau. Gall cais fod ar ffurf llythyr, ar yr amod ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y gyfraith er mwyn i gais fod yn ddilys.

1.9 Rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol dderbyn unrhyw gais sy'n cyrraedd yn y fformat rhagnodedig – h.y. gyda meysydd y dyddiad geni a'r llofnod fel y'u rhagnodwyd.[4] Rhaid i ba system feddalwedd bynnag a ddefnyddir allu derbyn ceisiadau os cyflawnir y darpariaethau hyn, ac ni ddylid gwrthod ceisiadau ar sail y ffaith nad ydynt wedi'u gwneud ar ffurflen a gynhyrchwyd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

1.10 Nid yw lleoliad y llofnod a'r dyddiad geni ar gais yn rhagnodedig. Os yw meysydd y llofnod a'r dyddiad geni wedi'u nodi i fodloni'r gofynion maint, fformat a chyferbyniad a amlinellwyd uchod, lle bynnag y bo hynny ar y ffurflen, rhaid tybio eu bod yn unol â'r rheoliadau.

---

[2] Rheoliad 51(2)(f), RhCyB 2001; Paragraff 1(1)(f), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1(1)(f), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.
[3] Rheoliad 51(3A), RhCyB 2001; Paragraff 1(3), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1(1A), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.
[4] Rheoliad 51(3A), RhCyB 2001; Paragraff 1(3), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1(1A), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.

1.11 Mae cynllun y ffurflenni cais am bleidlais absennol yn allweddol i hwyluso'r broses o ddarparu manylion adnabod personol a chasglu data arnynt.

1.12 Mae llawer o Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cynllunio eu ffurflenni cais am bleidlais absennol eu hunain i gyd-fynd â'u hamgylchiadau lleol. Wrth ddylunio'r ffurflen, rhaid bod yn ofalus i sicrhau bod y gofynion yn glir ac y gellir eu deall yn hawdd. Er enghraifft, byddem yn argymell y dylai'r blychau dyddiad geni gael eu lleoli uwchben y llofnod ar y ffurflen ac y dylai'r gofod ar gyfer darparu dyddiad y cais fod o dan y llofnod, er mwyn lleihau nifer y ceisiadau lle na chaiff y dyddiad geni ei roi yn gywir.

Mae canllawiau sylfaenol ar ddylunio ffurflenni ar gael yn Rhan Ff, 'Hygyrchedd a chyfranogiad'.

1.13 Yn ogystal â'r rhai a luniwyd gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol, mae nifer o sefydliadau eraill, yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol a phleidiau gwleidyddol, hefyd yn llunio ffurflenni cais. Caiff ffurflen gais y Comisiwn ei llunio ar fformat y cytunwyd arno gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau y gellir sganio'r manylion adnabod yn gywir. Er y gall ffurflen y Comisiwn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a luniwyd gan gynghorau neu bleidiau unigol, fe'i cynlluniwyd i fodloni gofynion yr holl gwmnïau sganio a rhagori arnynt.

Mae copïau o ffurflenni cais y Comisiwn ar gael yn www.comisiwnetholiadol.org.uk a gellir eu harchebu hefyd am ddim gan ein dosbarthwr. Gellir gweld y manylion archebu yn Rhan A, 'Cyd-destun', Adran 6, 'Adnoddau'.

1.14 Gallai fod o gymorth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gysylltu â phleidiau gwleidyddol lleol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gofynion sy'n rheoli'r modd y caiff y meysydd i gasglu llofnod a dyddiad geni'r ymgeisydd eu nodi ac, os bydd angen, rhoi copi templed addas iddynt ar gyfer unrhyw geisiadau y gallent eu cyhoeddi. Hysbyswyd y prif bleidiau gwleidyddol o'r cyfyngiadau argraffu y cytunwyd arnynt ac maent wedi diwygio cynllun eu ffurflen yn unol â hynny.

1.15 Mae'n hanfodol bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ystyried sut y byddant yn casglu gwybodaeth o ffurflenni nas lluniwyd ganddynt ac o unrhyw geisiadau dilys a dderbyniwyd nas darperir ar ffurflen benodol.

1.16 Rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddarparu swm rhesymol o ffurflenni cais am bleidlais absennol i bobl sydd am eu defnyddio mewn perthynas ag etholiad[5], sy'n cynnwys pleidiau gwleidyddol, a hynny am ddim.

[5] Rheoliad 4, RhCyB 2001.

Dylid esbonio, os bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cysylltu ag ymgeiswyr ac asiantau, y dylai unrhyw weithwyr plaid sy'n casglu ffurflenni cais am bleidlais bost gan etholwyr ddosbarthu'r ffurflenni'n ddi-oed, yn uniongyrchol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar God ymarfer sy'n ymwneud â phleidleisiau post gyda'r prif bleidiau gwleidyddol. Mae copi o'r Cod hwn i'w weld yn *Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau* y Comisiwn.

Derbyn ceisiadau

1.17 Rhaid gwneud ceisiadau am bleidlais absennol yn ysgrifenedig. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau a anfonir dros y ffacs ar yr amod eu bod ar ffurf ddarllenadwy a diamwys y gellir eu defnyddio ar gyfer cyfeirio dilynol, a bod y manylion adnabod personol wedi'u nodi yn y dull rhagnodedig.[6] Mae'n werth sicrhau bod digon o arlliw a phapur ym mheiriant ffacs y swyddfa cofrestru etholiadol, yn arbennig yn agos at y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau er mwyn iddynt fod yn ddilys ar gyfer etholiad penodol.

Noda Adran 2, 'Amserlen pleidleisio absennol' isod, y dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau am bleidleisiau absennol gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn bod yn ddilys ar gyfer etholiad penodol.

1.18 Dylid hefyd dderbyn ceisiadau wedi'u sganio sydd wedi'u hatodi i neges e-bost, er bod yn rhaid sicrhau bod llofnod arnynt: dylid ond derbyn cais drwy e-bost os yw'n cynnwys fersiwn wedi'i sganio o'r ffurflen gais a lofnodwyd. Mae'n rhaid i ba system bynnag a ddefnyddir i gasglu'r manylion adnabod allu ymdrin â llofnodion a drosglwyddir yn y dull hwn.

1.19 Dylid stampio'r dyddiad ar bob cais pan gaiff ei dderbyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y cyfnod yn union cyn etholiad. Ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno ceisiadau cyn etholiad penodol, byddai'n ddoeth cofnodi'r amser y cânt eu derbyn, yn arbennig o ran unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y terfyn amser 5pm.

1.20 Dylai fod gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol drefniadau cadarn ar waith ar gyfer trosglwyddo ffurflenni cais a dderbynnir mewn safleoedd eraill a weithredir gan y cyngor a benododd y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Os oes peiriant ffacs ym mhob safle, bydd hyn yn ddefnyddiol, er y dylai fod system ar waith i sicrhau bod y ffacs wedi'i drosglwyddo a'i dderbyn yn gywir. Bydd trefniadau o'r fath yn arbennig o bwysig ychydig cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau cyn etholiad. Dylid hefyd wirio pob mewnflwch, blwch post a desg cydweithwyr absennol ar yr adegau hynny er mwyn sicrhau na fethir unrhyw ffurflenni.

1.21 O bryd i'w gilydd, bydd etholwyr yn anfon eu ceisiadau at y Swyddog Cofrestru Etholiadol anghywir. Unwaith eto, mae'n ddymunol cael trefniadau

[6] Rheoliadau 5 a 51(3A) RhCyB 2001; Paragraff 1(3), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1(1A), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.

cadarn ar waith ar gyfer trosglwyddo ffurflenni o'r fath ymlaen yn gywir. Efallai y bydd angen galwadau ffôn a negeseuon ffacs, yn arbennig os derbynnir y cais yn agos at y dyddiad cau ar gyfer etholiad penodol.

Prosesu ceisiadau am bleidleisiau absennol

1.22 Dylid prosesu ceisiadau am bleidleisiau absennol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu derbyn. Bydd hyn yn arbennig o bwysig cyn etholiad lle y derbynnir ceisiadau yn agos at y dyddiad cau.

1.23 Yn ystod etholiad, gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried gwneud trefniadau er mwyn i staff ychwanegol ymdrin ag unrhyw swm mawr o geisiadau am bleidleisiau absennol a dderbynnir yn agos at y dyddiad cau. Lle y defnyddir staff dros dro, bydd angen darparu hyfforddiant a chyfarwyddiadau manwl gywir. Bydd angen sicrhau bod llwybr clir i staff ei ddilyn er mwyn cael cymorth gydag ymholiadau anodd. Mae'n bwysig bod pob aelod o staff, yn arbennig y rhai nad oes ganddynt brofiad o brosesu ceisiadau, yn ymwybodol o'r gofynion statudol y dylent fod yn eu bodloni mewn ceisiadau am bleidlais absennol.

Ceir templed o'r cyfarwyddiadau i aelodau o staff dros dro sy'n gysylltiedig â derbyn a gwirio ffurflenni cais am bleidleisiau absennol yn Adran 10, 'Adnoddau'.

Penderfynu ar geisiadau

1.24 Wrth i bob cais gael ei dderbyn, rhaid ei wirio i sicrhau bod yr etholwr wedi'i gynnwys, neu y caiff ei gynnwys, ar y gofrestr etholwyr berthnasol. Nid oes gan unigolyn nad yw ar y gofrestr yr hawl i bleidleisio ac felly ni all bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.[7] Bwriedir cynnwys ceisiadau i gofrestru y penderfynwyd eu bod yn ddilys, ar y gofrestr, ac felly, gellir derbyn ceisiadau am bleidleisiau absennol ar gyfer ymgeiswyr o'r fath er nad ydynt yn etholwyr tan ddyddiad cyhoeddi fersiwn diwygiedig nesaf y gofrestr neu'r hysbysiad o addasiad fel y bo'n briodol. Lle y bo'n bosibl, dylid nodi llythrennau/rhifau etholwr pob etholwr ar flaen y ffurflen er mwyn gallu ei adnabod yn hawdd i'w wirio.

1.25 Unwaith y bydd y cais wedi pasio'r gwiriad cychwynnol hwn, rhaid craffu arno i sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion rhagnodedig a nodir uchod.

1.26 Mae'n ofynnol i etholwyr sy'n gwneud cais am bleidlais absennol roi eu dyddiad geni a'u llofnod, neu gael ildiad o ran y gofyniad i roi llofnod (gweler Adran 6, 'Ildiadau'). Os bydd ceisiadau ond yn cynnwys un manylyn adnabod, ac eithrio'r ceisiadau hynny a ategir gan ildiad o ran y gofyniad i roi llofnod, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, pan fo'n bosibl, wneud ymholiadau

[7] Paragraffau 3(1)(a), 3(2)(b), 4(1)(a), 4(2)(b), 6(8)(a) a 7(5)(a), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthyglau 8(1)(b), 9(1)(b), 11(6)(a), 11(7)(a) a 12(5)(a), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthyglau 9(1)(a), 9(2)(b), 10(1)(a), 10(2)(b), 11(7)(a) a 12(4)(a), Gorchymyn Senedd yr Alban.

pellach gyda'r nod o gael y manylyn adnabod 'coll'. Os na chyflwynir y manylyn adnabod 'coll', rhaid gwrthod y cais.

1.27 Mae'r rheoliadau'n galluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gymharu llofnod neu ddyddiad geni ar gais am bleidlais absennol yn erbyn unrhyw lofnod neu ddyddiad geni a all fod ganddynt, neu a all fod gan eu hawdurdod lleol sy'n eu cyflogi neu'r Swyddog Canlyniadau.[8] Mae'n bosibl na fydd gan Swyddog Cofrestru Etholiadol lofnod ar gyfer unigolyn sy'n gwneud cais am bleidlais absennol ac felly ni fydd unrhyw beth i wirio'r llofnod yn ei erbyn. Hefyd, gan nad oes rhaid i'r unigolyn sy'n llofnodi'r ffurflen ganfasio ar gyfer aelwydydd brintio ei enw, nid yw bob amser yn amlwg pwy a lofnododd y ffurflen, neu hyd yn oed a yw enw'r unigolyn sy'n ei llofnodi wedi'i gynnwys ar y ffurflen. Fodd bynnag, gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol ddal ffurflen gofrestru dreigl ar gyfer unigolyn penodol, y gellid ei gwirio.

1.28 Mae'n amlwg mai cyfrifoldeb Swyddogion Cofrestru Etholiadol yw penderfynu faint o wirio y maent am ei wneud i fodloni eu hunain o ran dilysrwydd llofnod, gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael a'r gallu i weld y llofnodion a ddelir. Os oes gan Swyddog Cofrestru Etholiadol amheuon ynghylch cais penodol y gellir eu cadarnhau, dylid hysbysu'r heddlu ohonynt. Gallai fod o gymorth cyfeirnodi'r dogfennau canllaw ar atal twyll a luniwyd gan y Comisiwn, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn yr Alban wrth gyfeirio.

Mae'n bwysig i Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod yn wyliadwrus o batrymau sy'n datblygu o ran ceisiadau, yn arbennig os ydynt yn ymwneud â cheisiadau i ailgyfeirio papur pleidleisio i gyfeiriad lle nad yw'r etholwr wedi'i gofrestru. Os bydd y rheswm dros unrhyw gais penodol yn datgelu amgylchiadau sy'n cysylltu'r cais hwnnw ag eraill yn yr ardal neu â chyfeiriad penodol, dylid hysbysu'r heddlu o hyn, hyd yn oed os na fydd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw resymau dros wrthod ceisiadau. Yn arbennig, argymhellir y dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gytuno gyda phwynt cyswllt unigol ei heddlu ar nifer drothwy o geisiadau a gyfeirir i unrhyw un cyfeiriad, a hysbysu'r heddlu os cyrhaeddir y trothwy hwn heb esboniad amlwg ym marn y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

1.29 Bydd yr union ddull o gofnodi ceisiadau a dderbynnir yn dibynnu ar y systemau a ddefnyddir gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol unigol. Yn y rhan fwyaf o achosion, defnyddir systemau cyfrifiadurol i storio gwybodaeth. Gall fod yn ddefnyddiol llunio cyfarwyddiadau manwl gywir i staff sy'n mewnbynnu data, yn arbennig gan y gall fod angen cyflogi staff dros dro weithiau i helpu gyda swm y ceisiadau, megis yn y cyfnod cyn etholiad.

[8] Rheoliad 51A, RhCyB 2001; Paragraff 1(6), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1A, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban. Mae Rheoliad 4 o Reoliadau CyB (PA) (yr Alban) yn darparu ar gyfer gwirio llofnodion yn erbyn y rhai a roddwyd yn flaenorol i'r Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn unig.

1.30 Mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ysgrifennu at bob ymgeisydd i'w hysbysu o b'un a gafodd ei gais ei dderbyn neu ei wrthod.[9] Os gwrthodir cais, mae'n rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol roi'r rheswm/rhesymau dros ei wrthod.

Mae cydnabyddiaethau yn gyfle i ddiogelu rhag twyll posibl, neu gamddealltwriaeth ar ran yr etholwr. Os bydd etholwr yn cael cydnabyddiaeth am bleidlais bost nad yw wedi gwneud cais amdani, byddai cael y gydnabyddiaeth yn gyfle i'r etholwr gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Dylid monitro pob ymateb, ynghyd ag achosion o ddiffyg dosbarthu, a, lle ceir amheuon, dylid rhoi gwybod i'r heddlu am yr amgylchiadau.

Ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau ar gyfer etholiad penodol

1.31 Rhaid gwrthod unrhyw geisiadau am bleidleisiau absennol a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau ar gyfer etholiad penodol ar gyfer yr etholiad hwnnw, a dylid hysbysu'r etholwr o'r ffaith.[10] Fodd bynnag, os yw'n gais 'parhaol' a'i fod yn bodloni'r holl ofynion rhagnodedig, dylid hysbysu'r etholwr y bydd ei gais yn dod yn ddilys ar gyfer etholiadau yn y dyfodol. Os gwrthodir y cais, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hysbysu'r ymgeisydd o'r penderfyniad a'r rheswm drosto.

1.32 Mewn etholiadau Senedd y DU lle nad y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Swyddog Canlyniadau (Dros Dro) dros yr ardal gofrestru gyfan neu ran ohoni, rhaid anfon manylion ceisiadau am bleidlais bost a ganiatawyd at y Swyddog Canlyniadau (Dros Dro) cyn gynted ag y bo'n ymarferol.[11]

Nodir y dyddiadau cau ar gyfer pleidleisiau absennol mewn perthynas ag etholiadau isod yn Adran 2, 'Amserlen pleidleisio absennol'.

Apeliadau

1.33 Darperir gweithdrefn apelio i bobl y gwrthodir eu ceisiadau gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol.[12] Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n dymuno apelio hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad ar y cais a rhaid iddo nodi sail yr apêl. Mae'n rhaid i'r

[9] Rheoliad 57, RhCyB 2001; Paragraff 8, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 8, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 12, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[10] Rheoliadau 56 a 57, RhCyB 2001; Paragraffau 7 ac 8, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraffau 7 ac 8, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliadau 11 a 12, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[11] Rheoliad 57(6), RhCyB 2001.
[12] Rheoliad 58, RhCyB 2001; Paragraff 9, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 9, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 13, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

Swyddogion Cofrestru Etholiadol anfon yr hysbysiad i'r llys sirol neu, yn yr Alban, at y Siryf ar unwaith, ynghyd â'r canlynol:

- datganiad o'r ffeithiau perthnasol a sefydlwyd yn yr achos, yn eu barn hwy
- datganiad o'u penderfyniad ar yr achos cyfan, a
- datganiad o unrhyw bwynt y gellid ei nodi fel sail apêl

1.34 Os oes nifer o apeliadau, a wnaed ar yr un sail neu ar seiliau tebyg, gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol eu grwpio wrth eu dosbarthu i'r llys neu, yn yr Alban, i'r Siryf.

1.35 Nid yw'r rheoliadau'n nodi'r weithdrefn y dylid ei dilyn pe bai'r llys yn caniatáu'r apêl, ond dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn barod i ychwanegu'r etholwyr at y cofnod ac, os yw'n briodol, at y rhestr a baratowyd ar gyfer etholiad. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn rhy hwyr i anfon pleidlais bost ar gyfer yr etholiad penodol hwnnw.

Yn yr Alban, gellir apelio ar unrhyw gyfraith, o unrhyw benderfyniad gan y Siryf, i lys sy'n cynnwys tri barnwr Llys Sesiwn.[13]

Cynnal y cofnod pleidleisio absennol

1.36 Mae'n rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei gwneud yn ofynnol i bleidleiswyr absennol ddarparu llofnod newydd pan fydd y llofnod ar eu cofnod yn fwy na phum mlwydd oed.[14] Dylid ystyried hyn wrth gynllunio system ffeilio neu archifo ar gyfer y manylion adnabod.

1.37 Os bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn derbyn y llofnod yn ystod y trefniadau trosiannol wrth gyflwyno manylion adnabod personol, cyfrifir oedran y cais o ddyddiad derbyn yr hysbysiad gan yr etholwr. Mae oedran manylion adnabod a ddarperir gan ymgeiswyr newydd o 1 Ionawr 2007 yng Nghymru a Lloegr ac o 8 Chwefror 2008 yn yr Alban yn seiliedig ar y dyddiad y gwnaed y cais.

1.38 Bob blwyddyn, dim ond y llofnodion hynny sydd dros bum mlwydd oed y gellir eu hadnewyddu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal pleidleisiwr absennol rhag rhoi llofnod newydd i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar unrhyw adeg.[15]

Storio ceisiadau am bleidleisiau absennol

1.39 Rhaid cadw pob ffurflen sy'n cynnwys manylion adnabod personol. Gellir sganio'r rhain a'u storio'n electronig. Argymhellir y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol gadw'r dogfennau gwreiddiol am gyfnod addas, a'r opsiwn mwyaf

[13] Adrannau 56 a 57, DCyB 1983; Erthygl 5, Gorchymyn Senedd yr Alban.
[14] Rheoliad 60A, RhCyB 2001; Paragraff 13, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 11A, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.
[15] Paragraff 7A(1), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 13, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1B, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.

diogel yw hyd nes na fydd yr etholwr yn bleidleisiwr absennol mwyach neu hyd nes y caiff y cais ei adnewyddu a chaiff dogfen newydd ei derbyn a'i storio. Ar ôl y dyddiad y caiff y bleidlais absennol ei chanslo neu ar ôl dyddiad yr etholiad os yw'r cais am etholiad penodol, dylid cadw'r ffurflenni gwreiddiol am 12 mis arall.

1.40 Mae'n ddymunol cadw dogfennau gwreiddiol yn achos unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu i gamymddygiad etholiadol. O bryd i'w gilydd, gweld y dogfennau gwreiddiol fyddai orau at ddibenion dadansoddi llawysgrifen a dadansoddi fforensig. Bydd yn werthfawr hefyd lle canfyddir nad yw ceisiadau wedi cael eu sganio'n dda.

2 Amserlen ar gyfer pleidleisio absennol

Amserlen pleidleisio absennol

2.1 Gellir gwneud ceisiadau am bleidleisiau absennol ar unrhyw adeg, a dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol brosesu pob cais cyn gynted â phosibl ar ôl ei dderbyn. Fodd bynnag, ceir dyddiadau cau mewn deddfwriaeth ar gyfer derbyn ceisiadau am bleidleisiau absennol er mwyn gwneud cais mewn etholiad penodol.

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau cyn etholiad

2.2 Mae'r dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau am bleidleisiau absennol yn statudol.[16] Ni ellir ymestyn unrhyw un o'r dyddiadau cau hyn am unrhyw reswm. Ni ellir derbyn ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau a'r amser cau ar gyfer etholiad penodol. Mewn achosion o'r fath, dylid hysbysu ymgeiswyr na dderbyniwyd eu cais erbyn y dyddiad cau statudol ac felly ni ellir ei ganiatáu o dan yr etholiad hwnnw.

2.3 Cyfrifir dyddiadau cau ar gyfer pleidleisiau absennol drwy hepgor *dies non*, sef dydd Sadyrnau, dydd Suliau, Dydd Gwener y Groglith ac unrhyw wyliau banc eraill.[17] Drwy'r canllawiau hyn, ceir cyfeiriadau at ddiwrnodau 'gwaith' lle y cyfrifir yr amser dan sylw drwy hepgor *dies non*.

2.4 Y dyddiad cau ar gyfer newidiadau (yn cynnwys canslo) i geisiadau presennol am bleidleisiau post, pleidleisiau drwy ddirprwy neu bleidleisiau post drwy ddirprwy yw 5pm, 11 diwrnod gwaith cyn dyddiad yr etholiad.[18]

2.5 Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am bleidlais bost newydd a cheisiadau am bleidlais bost drwy ddirprwy newydd yw 5pm hefyd, 11 diwrnod gwaith cyn dyddiad yr etholiad.[19]

2.6 Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am bleidlais drwy ddirprwy newydd (nid pleidlais bost drwy ddirprwy) (heb gynnwys dirprwyon am resymau yn ymwneud ag argyfyngau meddygol) yw 5pm, chwe diwrnod gwaith cyn dyddiad yr etholiad.[20]

---

[16] Rheoliad 56, RhCyB 2001; Paragraff 7, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 7, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 11, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

[17] Rheoliad 8, RhCyB 2001; Paragraff 7(6), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 7(7), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 11(7), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

[18] Rheoliad 56(1), (4) a (5), RhCyB 2001; Paragraff 7(4) a (5), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 7(1), (5) a (6), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 11(1), (5) a (6), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

[19] Rheoliad 56(1) a (4), RhCyB 2001; Paragraff 7(1), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 7(1) a (5), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 11(1) a (5), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

[20] Rheoliad 56(2) a (3), RhCyB 2001; Paragraff 7(2), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 7(2) a (3), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 11(2) a (3), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

2.7 Ceir darpariaeth hefyd sy'n galluogi etholwr i benodi dirprwy yn achos cyflwr meddygol, salwch neu anabledd sy'n codi ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am ddirprwy arferol, ar yr amod y darperir yr ardystiad priodol.[21] Y dyddiad cau ar gyfer hyn yw 5pm ar y diwrnod pleidleisio.[22] Mae gan gleifion iechyd meddwl a gedwir o dan bwerau sifil hefyd yr hawl i benodi dirprwy ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn dyddiad yr etholiad hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio.[23]

[21] Rheoliad 55(2), RhCyB 2001; Paragraff 6(2), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 5(2), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 10(2), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

[22] Rheoliad 56(3A), RhCyB 2001; Paragraff 7(3), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 7(4), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 11(4)(a), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

[23] Rheoliadau 55(4) a 56(3A), RhCyB 2001; Paragraffau 6(4) a 7(3), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraffau 5(4) a 7(4), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliadau 10(4) ac 11(4)(b), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

3 Cyfleu gwybodaeth am bleidleisio absennol

3.1 Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol am gymryd y cyfryw fesurau ag y credant eu bod yn angenrheidiol i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod ffurflenni cais ar gael ac i dynnu sylw etholwyr at y dyddiadau cau. Mae gwariant ar y gweithgareddau hyn yn rhan o gost cofrestru etholiadol ac ni ellir ei adennill o gyfrif yr etholiad, hyd yn oed os eir iddo yn y cyfnod yn union cyn etholiad. I'r gwrthwyneb, mae'r Swyddog Canlyniadau (Dros Dro) yn gyfrifol am gyhoeddi yn yr hysbysiad etholiad fanylion y dyddiadau cau ar gyfer newid trefniadau pleidleisio absennol presennol ac ar gyfer ceisiadau newydd a chyfeiriad y Swyddog Cofrestru Etholiadol y mae'n rhaid anfon ceisiadau iddo, ac mae cost argraffu a chyhoeddi'r hysbysiad hwn yn draul etholiadol.

3.2 Dylai deunydd hyrwyddol am bleidleisio absennol roi gwybodaeth am y prosesau pleidleisio absennol. Mae llawer o Swyddogion Cofrestru Etholiadol eisoes yn rhoi gwybodaeth am y prosesau pleidleisio absennol, naill ai gyda ffurflenni cais neu yn lleoliadau'r cyngor ac ar wefannau'r cyngor.

3.3 Mewn achosion o'r fath, mae'n arfer da cyfleu'n glir y dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau drwy'r post a cheisiadau drwy ddirprwy mewn perthynas ag etholiadau, yn cynnwys y dyddiad cau ar gyfer gwneud newidiadau i unrhyw drefniant presennol, a'r amser mewn etholiad pan fydd y Swyddog Canlyniadau yn disgwyl i'r papurau pleidleisio drwy'r post gael eu hanfon, gan gofio y gallai ffactorau megis oedi posibl o ran argraffu neu bostio beri i bapurau gyrraedd yn ddiweddarach na'r bwriad. Gall y wybodaeth hon gynorthwyo etholwyr, yn cynnwys y rhai sy'n gweithio dramor, i benderfynu p'un a fydd pleidleisio drwy'r post yn ffordd briodol iddynt ddewis bwrw eu pleidlais.

3.4 Dylid sicrhau bod ffurflenni cais ar gael fel mater o drefn ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod lleol ac mewn safleoedd eraill megis swyddfeydd post, llyfrgelloedd, meddygfeydd, Canolfannau Cyngor ar Bopeth, clybiau cinio a chlybiau pensiynwyr. Mae llawer o awdurdodau lleol yn sicrhau bod eu ffurflenni ar gael i'w llwytho i lawr o'u gwefannau. Mae ffurflenni cais hefyd ar gael i'w llwytho i lawr o wefan y Comisiwn mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau.

3.5 Dylai ffurflenni cais fod ar gael drwy gydol y flwyddyn yn y canolfannau a nodir uchod a dylid rhoi cyhoeddusrwydd ychwanegol iddynt wrth i etholiadau agosáu. O ran etholiadau ym mis Mai, dylai unrhyw gyhoeddusrwydd ychwanegol ddechrau erbyn wythnos olaf mis Chwefror er mwyn caniatáu amser i anfon, derbyn a phrosesu ffurflenni cyn y dyddiad cau.

3.6 Gellid argraffu ffurflenni cais yng nghylchlythyrau'r cyngor hefyd gyda manylion lle i ddychwelyd y ffurflenni, gan ddefnyddio cyfeiriad rhadbost os yw'n bosibl. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol cynnwys y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd ceisiadau cyn etholiad penodol ac awgrym o'r dyddiad tebygol ar gyfer dosbarthu pleidleisiau post.

4 Pleidleisio drwy ddirprwy

Ceisiadau am ddirprwy am gyfnod penodol neu amhenodol

4.1 Mae nifer o resymau derbyniol yn y gyfraith o ran pwy all ddewis gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy am gyfnod penodol neu amhenodol. Y rhesymau hyn yw:[24]

- dallineb
- anabledd arall
- galwedigaeth/cyflogaeth/gwasanaeth/mynd ar gwrs
- wedi cofrestru fel pleidleisiwr gwasanaeth neu bleidleisiwr tramor
- wedi cofrestru fel etholwr dienw
- mae angen teithio dros y môr neu yn yr awyr i fynd o'r cyfeiriad cofrestredig i orsaf bleidleisio

4.2 Mae angen ardystio ceisiadau am bleidlais drwy ddirprwy am gyfnod amhenodol neu benodol am resymau sy'n ymwneud â dallineb neu anabledd arall (ac eithrio'r rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddall gan yr awdurdod lleol neu sy'n cael y gyfradd uwch o'r elfen symudedd o lwfans byw i'r anabl) a galwedigaeth/cyflogaeth/gwasanaeth/mynd ar gwrs,[25] ac mae'n rhaid datgan neu nodi'r rheswm pam bod angen pleidlais drwy ddirprwy ar y cais.

Ceisiadau am ddirprwy ar gyfer etholiad penodol

4.3 Nid oes angen ardystio ceisiadau am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiad penodol, ond mae'n rhaid i'r ymgeisydd nodi'r amgylchiadau pam na ellir disgwyl iddo'n rhesymol bleidleisio'n bersonol.[26] Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys i'r sawl a gofrestrwyd o ran datganiad etholwyr tramor, pleidleiswyr gwasanaeth neu Weision y Goron, lle gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn fodlon ar natur eu cofrestriad na ellir disgwyl yn rhesymol iddynt fynd i'w gorsaf bleidleisio benodedig.[27] Yn ogystal â hyn, nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r ymgeisydd yn etholwr dienw.[28] Bydd y

[24] Paragraff 3(3), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 8(2), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 9(3), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[25] Rheoliadau 53 a 54, RhCyB 2001; Paragraffau 4 a 5, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraffau 3 a 4, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliadau 8 a 9, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[26] Paragraff 4(2), Atodlen 4, DCyB 2000; Rheoliad 55(1), RhCyB 2001; Erthygl 9(1), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 6(1), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 10(2), Gorchymyn Senedd yr Alban; Paragraff 5(1), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 10(1), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[27] Paragraff 4(2), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 9(1), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 10(2), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[28] Paragraff 4(2A), Atodlen 4, DCyB 2000; Rheoliad 55(1A), RhCyB 2001; Erthygl 9(2), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 6(6), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 10(3), Gorchymyn Senedd yr Alban; Paragraff 5(6), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 10(6), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

Swyddog Cofrestru Etholiadol yn penderfynu, yn ôl ei ddisgresiwn, p'un a yw'r rheswm a roddir yn foddhaol ac na ellir disgwyl yn rhesymol i'r etholwr bleidleisio'n bersonol, gan ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun.

Gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy

4.4 Rhaid gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy yn ysgrifenedig, ond gall fod mewn unrhyw fformat: mae llythyr, ffacs, neges e-bost gyda llofnod yr etholwr wedi'i sganio a ffurflen gais am ddirprwy oll yn dderbyniol, ar yr amod bod y cais yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol fel y nodir yn y gyfraith, yn cynnwys bodloni'r gofyniad y caiff y manylion adnabod personol (llofnod a dyddiad geni'r ymgeisydd) eu ffurfweddu fel y nodir yn y rheoliadau.[29]

4.5 Rhaid cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn cais am bleidlais drwy ddirprwy er mwyn iddo fod yn ddilys:[30]

- enw llawn yr etholwr
- dyddiad geni'r etholwr
- llofnod yr etholwr
- y cyfeiriad lle mae'r etholwr wedi'i gofrestru (neu wedi gwneud cais i gofrestru) i bleidleisio
- y rhesymau y mae'r etholwr yn honni bod ganddo hawl i bleidleisio drwy ddirprwy
- enw llawn a chyfeiriad y dirprwy
- y gydberthynas deuluol rhwng yr etholwr a'r dirprwy (os o gwbl)
- p'un a yw'r cais am etholiad penodol, cyfnod penodol neu gyfnod amhenodol, ac os yw am gyfnod penodol dylai nodi'r cyfnod hwnnw
- p'un a yw ar gyfer etholiadau Seneddol, etholiadau lleol neu'r ddau
- dyddiad y cais

4.6 Mae'n rhaid i'r ymgeisydd hefyd naill ai:[31]

- gynnwys datganiad yn nodi ei fod wedi ymgynghori â'r dirprwy a bod yr unigolyn hwnnw yn gallu ac yn fodlon cael ei benodi'n ddirprwy, os mai ef yn unig sydd wedi llofnodi'r ffurflen, neu
- os yw'r dirprwy wedi llofnodi'r ffurflen hefyd, cynnwys datganiad gan y dirprwy yn nodi ei fod yn gallu ac yn fodlon cael ei benodi'n ddirprwy i'r ymgeisydd

4.7 Mae'n ofynnol i bob etholwr sydd am benodi dirprwy roi ei fanylion adnabod personol.[32] Os bydd rhywun a benodwyd yn ddirprwy am wneud cais

[29] Rheoliad 51, RhCyB 2001; Paragraff 1, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 3, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[30] Rheoliadau 51 a 52, RhCyB 2001; Paragraffau 1 a 3, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraffau 1 a 6, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliadau 3 a 7, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[31] Rheoliad 52, RhCyB 2001; Paragraff 3, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 6, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 7, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

am bleidlais bost, bydd angen iddo roi ei fanylion adnabod hefyd.[33] Dengys Tabl 1 y gofynion o ran manylion adnabod.

Tabl 1: Gofynion o ran manylion adnabod

Dull pleidleisio	Manylion adnabod gofynnol	
	Etholwr	Unigolyn a benodwyd yn ddirprwy
Dirprwy yn pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio	Ydy	Nac ydy
Dirprwy yn pleidleisio drwy'r post	Ydy	Ydy

4.8 Pan na all ymgeisydd roi llofnod, rhaid iddo roi rhesymau gyda'i gais dros ofyn am i'r gofyniad i roi llofnod gael ei ildio, ynghyd ag enw a chyfeiriad unrhyw un sydd wedi'i gynorthwyo i gwblhau'r cais.[34]

Mae cyngor ymarferol ar y darpariaethau ildio ar gael yn Adran 6 'Ildiadau', isod.

Ardystiad

4.9 Nid oes rhaid i'r sawl sy'n gorfod teithio dros y môr neu yn yr awyr i gyrraedd gorsaf bleidleisio ardystio eu cais.[35] Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu cadarnhau a oes angen teithio dros y môr neu yn yr awyr i gyrraedd yr orsaf bleidleisio berthnasol o'r cyfeiriad cymhwyso o'i wybodaeth leol ei hun. Dim ond teithiau o'r cyfeiriad cymhwyso i'r orsaf bleidleisio y mae'r ddarpariaeth hon yn eu cwmpasu ac nid unrhyw deithiau o'r fath sy'n ofynnol oherwydd absenoldeb dros dro o'r cyfeiriad cymhwyso, megis bod ar wyliau.

4.10 Os gwneir cais am bleidlais drwy ddirprwy am gyfnod penodol neu amhenodol am resymau sy'n ymwneud â dallineb neu anabledd arall (ac eithrio'r rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddall gan yr awdurdod lleol neu sy'n cael y gyfradd uwch o'r elfen symudedd o lwfans byw i'r anabl) neu

[32] Paragraffau 3(2)(c) a 4(2)(c), Atodlen 4, DCyB 2000; Rheoliad 51, RhCyB 2001; Erthyglau 8(1)(c) a 9(1)(c), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthyglau 9(2)(c) a 10(2)(c), Gorchymyn Senedd yr Alban; Paragraff 1, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.
[33] Paragraff 7(5)(c), Atodlen 4, DCyB 2000; Rheoliad 51, RhCyB 2001; Erthygl 12(5)(c), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 12(4), Gorchymyn Senedd yr Alban; Paragraff 1, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.
[34] Paragraffau 3(8), 4(5) a 7(11), Atodlen 4, DCyB 2000; Rheoliad 51(2)(f), RhCyB 2001; Erthyglau 8(8), 9(5) a 12(12), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1(1)(f), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthyglau 9(7), 10(7) a 12(11), Gorchymyn Senedd yr Alban; Paragraff 1(1)(f), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.
[35] Paragraff 3(3)(d), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 8(2)(e), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 9(3)(e), Gorchymyn Senedd yr Alban.

alwedigaeth/cyflogaeth/gwasanaeth/mynd ar gwrs, rhaid i'r cais gael ei ardystio gan un o'r bobl a nodir isod.[36]

Anabledd neu ddallineb

4.11 Dylai'r canlynol ardystio'r ffurflenni:

- ymarferydd meddygol cofrestredig neu nyrs gofrestredig sy'n trin yr ymgeisydd mewn perthynas â'i anabledd neu y mae'r ymgeisydd yn cael gofal ganddynt o ran yr anabledd hwnnw
- ymarferydd Gwyddoniaeth Gristnogol sy'n trin yr ymgeisydd mewn perthynas â'i anabledd neu y mae'r ymgeisydd yn cael gofal ganddo o ran yr anabledd hwnnw
- rhywun sydd wedi'i gofrestru fel aelod o broffesiwn y mae Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001 yn gymwys iddo (h.y. therapyddion celf, ciropodyddion, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, technegwyr labordai meddygol, therapyddion galwedigaethol, orthoptwyr, parafeddygon, ffisiotherapyddion, prosthetyddion ac orthotyddion, radiograffyddion a therapyddion iaith a lleferydd) sy'n trin yr ymgeisydd mewn perthynas â'i gyflwr neu y mae'r ymgeisydd yn cael gofal ganddo o ran yr anabledd hwnnw
- deintydd cofrestredig, optegydd cyflenwi, optometrydd, fferyllydd fferyllol, meddyg esgyrn neu geiropractydd sy'n trin yr ymgeisydd mewn perthynas â'i anabledd neu y mae'r ymgeisydd yn cael gofal ganddynt o ran yr anabledd hwnnw
- rheolwr gwasanaeth cartref gofal a gofrestrwyd o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yng Nghymru a Lloegr ac o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (yr Alban) 2001
- warden cartref preswyl a ddarperir i bobl o oedran pensiynadwy neu bobl anabl, pan noda'r ymgeisydd ei fod yn preswylio mewn sefydliad o'r fath
- rheolwr (neu ei gynrychiolydd awdurdodedig) ysbyty a gofrestrwyd yn unol ag Adran 145 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yng Nghymru a Lloegr ac Adran 329 o Ddeddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (yr Alban) 2003
- gweithiwr cymdeithasol cofrestredig sydd wedi trefnu gofal neu gymorth ar gyfer yr ymgeisydd
- seicolegydd siartredig cofrestredig sy'n trin yr ymgeisydd mewn perthynas â'i gyflwr neu y mae'r ymgeisydd yn cael gofal ganddo o ran yr anabledd hwnnw

4.12 Nid oes rhaid ardystio cais ymgeisydd sydd wedi'i gofrestru'n ddall os yw'n nodi ei fod wedi'i gofrestru'n ddall gan yr awdurdod lleol.[37] Hefyd, nid oes angen ardystio cais ymgeisydd sy'n nodi ei fod yn cael y gyfradd uwch o'r

[36] Rheoliadau 53 a 54, RhCyB 2001; Paragraffau 4 a 5, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraffau 3 a 4, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliadau 8 a 9, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban.

[37] Rheoliad 53(5)(a), RhCyB 2001; Paragraff 4(5)(a), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 3(6)(a), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 8(6)(a) a (7), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

elfen symudedd o lwfans byw i'r anabl oherwydd yr anabledd neu'r cyflwr meddygol a nodir yn ei gais.[38]

4.13 O dan yr holl amgylchiadau, ac eithrio ar gyfer cais a wneir gan etholwr a gedwir mewn ysbyty o dan Adran 145 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yng Nghymru a Lloegr ac Adran 329 o Ddeddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (yr Alban) 2003, rhaid i'r unigolyn sy'n ardystio'r ffurflen hefyd nodi ei enw a'i gyfeiriad, y cymhwyster a feddir ganddo yn rhinwedd yr hwn y mae'n ardystio'r cais, a hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred na ellir disgwyl yn rhesymol i'r ymgeisydd fynd i'r orsaf bleidleisio na phleidleisio heb gymorth yn sgîl ei anabledd, a bod y cyflwr meddygol neu'r anabledd yn debygol o barhau naill ai'n amhenodol neu am gyfnod a nodir gan yr ardystiwr.[39]

4.14 Pan wneir cais gan etholwr a gedwir yn yr ysbyty o dan Adran 145 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yng Nghymru a Lloegr ac Adran 329 o Ddeddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (yr Alban) 2003, rhaid i'r unigolyn sy'n ardystio'r ffurflen hefyd nodi'i enw, ei swydd yn yr ysbyty, datganiad yn cadarnhau ei fod wedi'i awdurdodi i wneud yr ardystiad, manylion y ddarpariaeth statudol y mae'r ymgeisydd yn atebol o gael ei gadw oddi tani, a hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred na ellir disgwyl yn rhesymol i'r ymgeisydd fynd i'r orsaf bleidleisio na phleidleisio heb gymorth yn sgîl ei anabledd, a bod y cyflwr meddygol neu'r anabledd yn debygol o barhau naill ai'n amhenodol neu am gyfnod a nodir gan yr ardystiwr.[40]

Galwedigaeth/cyflogaeth/pleidleisiwr gwasanaeth/dilyn cwrs

4.15 Dylid ardystio'r ffurflenni:[41]

- gan gyflogwr yr ymgeisydd, neu gyflogai sydd wedi'i ddirprwyo i wneud hynny ar ran y cyflogwr, neu
- os yw'r ymgeisydd yn hunangyflogedig, rhywun sy'n 18 oed neu'n hŷn sy'n adnabod yr unigolyn ond nad yw'n perthyn iddo, neu
- os yw'r ymgeisydd yn dilyn cwrs, tiwtor y cwrs hwnnw neu brifathro'r sefydliad addysgol lle y cynhelir y cwrs, neu gyflogai wedi'i ddirprwyo i wneud hynny ar ran y prifathro

[38] Rheoliad 53(5)(b), RhCyB 2001; Paragraff 4(5)(b), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 3(6)(b), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 8(6)(b), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[39] Rheoliad 53(4), RhCyB 2001; Paragraff 4(4), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 3(4), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 8(4), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[40] Rheoliad 53(5A), RhCyB 2001; Rheoliad 53(4A), RhCyB (yr Alban) 2001; Paragraff 4(6), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 3(5), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 8(5), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[41] Rheoliad 54, RhCyB 2001; Paragraff 5, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 4, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 9, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

Cymwysterau ar gyfer gweithredu fel dirprwy

4.16 Gellir penodi unrhyw un i bleidleisio fel dirprwy ar ran unigolyn arall, ar yr amod ei fod yn ddigon hen i bleidleisio ac yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys yn un o wledydd y Gymanwlad, yn ddinesydd yng Ngweriniaeth Iwerddon, neu'n ddinesydd o un o aelod-wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd, ac nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw anallu cyfreithiol i bleidleisio.[42]

4.17 Nid oes unrhyw ofyniad i ddirprwy fod yn etholwr cofrestredig.

4.18 Ni all unigolyn bleidleisio fel dirprwy mewn unrhyw etholaeth neu ardal etholiadol ar ran mwy na dau etholwr, ac eithrio os yw'n briod, yn bartner sifil, yn rhiant, yn fam-gu neu'n dad-cu, yn frawd, yn chwaer, yn blentyn neu'n ŵyr neu'n wyres i'r etholwyr.[43] Nid oes terfyn ar nifer y perthnasau agos y gall dirprwy bleidleisio ar eu rhan.

4.19 Nid yw'n drosedd i gael eich penodi'n ddirprwy gan fwy na dau unigolyn ond mae'n drosedd i bleidleisio ar ran mwy na dau unigolyn nad ydynt yn berthnasau agos (fel y'u diffinnir uchod).

Cydnabod ceisiadau am bleidlais drwy ddirprwy a phleidlais bost drwy ddirprwy

4.20 Pan fydd Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi caniatáu cais i bleidleisio drwy ddirprwy, **rhaid** iddo gadarnhau, yn ysgrifenedig i'r etholwr, bod y dirprwy wedi'i benodi, enw a chyfeiriad y dirprwy a hyd ei benodiad.[44] Rhaid hysbysu dirprwy o'i benodiad hefyd.[45] Mae ffurf y papur pleidleisio drwy ddirprwy at y diben hwn wedi'i rhagnodi.[46]

Ni ragnodir ffurf y papur pleidleisio drwy ddirprwy yng Ngorchymyn Senedd yr Alban. Fodd bynnag, mae Paragraff 8(3) o Atodlen 3 yn caniatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyfuno papur pleidleisio ar gyfer etholiad Senedd yr Alban â phapur pleidleisio a gyhoeddir o ran unrhyw etholiad arall.

4.21 Lle bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gwrthod cais, rhaid iddo hysbysu'r ymgeisydd o'r penderfyniad a'r rheswm drosto.[47]

---

[42] Paragraff 6, Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 11, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 11, Gorchymyn Senedd yr Alban.
[43] Paragraff 6(6), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 11(5), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 11(5), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[44] Rheoliad 57(2), RhCyB 2001; Paragraff 8(2), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 8(2), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 12(2), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[45] Paragraff 6(9), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 11(8), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 11(8), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[46] Paragraff 6(9), Atodlen 4, DCyB 2000; Rheoliad 57(3) a Ffurflen E, RhCyB 2001; Paragraff 8(3), Atodlen 1 a Ffurflen CA, Atodlen 10, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliad 12(3) ac Atodlen, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[47] Rheoliad 57(4), RhCyB 2001; Paragraff 8(4), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Paragraff 8(4), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliad 12(4), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

Pleidleisio drwy'r post fel dirprwy

4.22 Gall y sawl a benodwyd yn ddirprwy ddewis pleidleisio drwy'r post.[48] Efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am ystyried anfon ffurflenni cais at y diben hwn wrth hysbysu'r dirprwy o'i benodiad. Mae'n rhaid i'r cais a wneir gan y dirprwy i bleidleisio drwy'r post fodloni'r un gofynion rhagnodedig ag ar gyfer unrhyw gais i bleidleisio drwy'r post, yn cynnwys y gofyniad i ddarparu manylion adnabod personol, yr amlinellir hwy oll yn Adran 5, 'Pleidleisio drwy'r post', isod. Yn ogystal â bodloni'r gofynion rhagnodedig a bod yn fodlon bod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr, neu y bydd arni, mae'n rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd sicrhau bod cais ar waith i benodi'r ymgeisydd fel dirprwy'r etholwr er mwyn caniatáu'r cais i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy.[49]

Newid neu ganslo trefniadau dirprwy

4.23 Gall etholwr wneud cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar unrhyw adeg i ganslo ei bleidlais bost.[50]

4.24 Gall etholwr ganslo neu newid y dirprwy a benodir ganddo ar unrhyw adeg drwy hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.[51]

4.25 Gall etholwr ganslo'r dirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post ar ei ran ar unrhyw adeg drwy hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.[52] Caiff pleidlais bost drwy ddirprwy hefyd ei chanslo yn y sefyllfaoedd hynny lle nad yw'r etholwr sydd wedi penodi'r dirprwy wedi'i gofrestru mwyach neu fod penodiad y dirprwy wedi'i ganslo, p'un a gaiff yr unigolyn hwnnw ei ailbenodi'n ddiweddarach ai peidio.[53]

4.26 Gall dirprwy presennol sy'n pleidleisio drwy'r post ofyn, ar unrhyw adeg, am i'w bapurau pleidleisio drwy'r post gael eu hanfon i gyfeiriad gwahanol i'r un a geir yn y cofnod pleidleisio absennol, ar yr amod ei fod yn rhoi rheswm pam bod angen anfon ei bapur pleidleisio i'r cyfeiriad hwnnw.[54]

---

[48] Paragraff 7(1) a (3), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 12(1) a (3), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 12(1) a (3), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[49] Paragraff 7(5), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 12(5), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 12(4), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[50] Paragraff 3(5)(a), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 8(5)(a), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 9(5)(a), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[51] Paragraff 6(10), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 11(9), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 11(9), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[52] Paragraff 7(9)(a), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 12(10)(a), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 12(9)(a), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[53] Paragraff 7(9)(b) ac (c), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 12(10)(c) a (d), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 12(9)(c) a (d), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[54] Paragraff 7(7), Atodlen 4, DCyB 2000; Rheoliad 51B, RhCyB 2001; Erthygl 12(7), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1(8), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 12(6), Gorchymyn Senedd yr Alban; Paragraff 2, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 6, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

4.27 Lle nad yw unrhyw etholwr wedi'i gofrestru mwyach o ran yr un cyfeiriad cymhwyso, neu lle bo'n cofrestru drwy ddatganiad yn hytrach nag fel etholwr arferol neu i'r gwrthwyneb, daw unrhyw drefniadau pleidleisio absennol sy'n gysylltiedig â'r cofrestriad i ben.[55]

4.28 Gall pleidleisiwr sydd wedi penodi dirprwy ofyn am gael newid i bleidleisio drwy'r post ar ôl cyflwyno cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n bodloni'r gofynion rhagnodedig.[56]

Dirprwyon ar gyfer argyfyngau meddygol

Gall etholwr benodi dirprwy ar gyfer etholiad penodol hyd at **5pm** ar y diwrnod pleidleisio ar gyfer yr etholiad hwnnw, os bydd yn mynd yn sâl neu'n anabl ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn dyddiad yr etholiad, h.y. os na allent fod wedi gwneud cais am bleidlais absennol o dan y weithdrefn arferol.

4.29 Bydd yn rhaid i'r ffurflen gais gael ei hardystio gan unigolyn priodol o'r rhestr o bobl a ddangosir uchod a all ardystio ceisiadau am bleidlais drwy ddirprwy a wneir am resymau yn ymwneud ag anabledd. Mae'n rhaid i'r cais gynnwys, hyd eithaf gwybodaeth a chred yr unigolyn sy'n ardystio'r ffurflen, y dyddiad yr aeth yr unigolyn yn sâl neu'n anabl, y mae'n rhaid iddo fod ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio er mwyn derbyn y cais.[57]

4.30 Rhaid gwneud y cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Os gwneir y cais ar y diwrnod pleidleisio, neu ar ôl i'r rhestr o ddirprwyon gael ei dosbarthu i'r orsaf bleidleisio, bydd angen dod o hyd i ffordd o gyfleu'r wybodaeth i'r Swyddog Llywyddu yn yr orsaf bleidleisio lle bydd y dirprwy yn pleidleisio, gan na fydd ar y rhestr o ddirprwyon a gyflenwyd yn wreiddiol, yn amlwg.

4.31 Bydd angen trefniadau lleol rhwng y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau er mwyn penderfynu sut y caiff y Swyddog Llywyddu ei hysbysu o unrhyw ddirprwyon brys a benodir.

4.32 Awgrymir y dylid rhoi llythyr i ddirprwy unrhyw bleidleisiwr y derbyniwyd ei gais yn ei awdurdodi i weithredu fel dirprwy, a ddylai gynnwys manylion yr unigolyn y mae'n pleidleisio ar ei ran. Dylid cyfarwyddo'r dirprwy i fynd â'r awdurdodiad hwnnw gydag ef pan fydd yn mynd i bleidleisio, a'i roi i'r Swyddog Llywyddu. Yna, dylid cadw'r llythyr gyda'r rhestr o ddirprwyon fel cofnod bod papur pleidleisio wedi'i roi i'r dirprwy.

4.33 Dylid gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r Swyddog Llywyddu priodol yn uniongyrchol i'w rybuddio bod dirprwy brys wedi'i benodi, yn arbennig gan nad

[55] Paragraff 3(5)(b), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 8(5)(c), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 9(5)(c), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[56] Paragraff 3(7), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 8(7), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 9(6), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[57] Rheoliadau 55 a 56(3A) RhCyB 2001; Paragraffau 6 a 7(3), Atodlen 2007, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraffau 5 a 7(4), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliadau 10 ac 11(4), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i'r dirprwy ddarparu unrhyw ddogfennaeth er mwyn cael ei ganiatáu i bleidleisio ar ran yr etholwr sy'n sâl neu'n anabl. Pan fo'n bosibl, argymhellir y dylid rhoi rhestr atodol o ddirprwyon i'r orsaf bleidleisio, y dylid ei hychwanegu at y rhestr a ddarparwyd yn wreiddiol.

Ymholiadau

4.34 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wneud ymholiadau o ran pob cais am bleidlais drwy ddirprwy a ganiateir am resymau penodol yn ymwneud â galwedigaeth, gwasanaeth, cyflogaeth neu fynd ar gwrs addysgol o fewn tair blynedd i ganiatáu'r cais, neu'r ymholiad diwethaf o'r fath.[58] Dylai hyn fod yn rhan o'r weithdrefn swyddfa fisol yn dilyn cyhoeddi'r diweddariad misol.

4.35 Os na fydd etholwr yn ymateb i'r ymholiad o fewn cyfnod o fis, mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yr hawl i ystyried hyn yn dystiolaeth ddigonol o newid perthnasol mewn amgylchiadau, a chanslo'r bleidlais absennol.[59] Mae'n arfer da anfon llythyr yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer ymateb a chanlyniadau peidio ag ymateb.

4.36 Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol wneud ymholiadau o ran unrhyw unigolyn a gaiff bleidleisio drwy ddirprwy ar sail dallineb neu anabledd arall, galwedigaeth, gwasanaeth, cyflogaeth neu am ei fod ar gwrs addysgol ar unrhyw adeg er mwyn penderfynu a gafwyd newid perthnasol mewn amgylchiadau.[60]

[58] Rheoliad 60(2), RhCyB 2001; Paragraff 11(2), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliad 15(2), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban). Mae Paragraff 11, Atodlen 3 i Orchymyn Senedd yr Alban ond yn ei gwneud yn ofynnol cynnal ymholiadau o'r fath ar y cyfryw adegau ag y gwêl y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn dda.
[59] Rheoliad 60(3), RhCyB 2001; Paragraff 11(3), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 11(2), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 15(3), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[60] Rheoliad 60(1), RhCyB 2001; Paragraff 11(1), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliad 15(1), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban). Mae Paragraff 11, Atodlen 1 i Orchymyn Senedd yr Alban ond yn nodi ymholiadau o ran galwedigaeth, gwasanaeth, cyflogaeth neu unigolion ar gwrs addysgol neu sy'n teithio ar y môr neu yn yr awyr i'r orsaf bleidleisio benodedig.

5 Pleidleisio drwy'r post

5.1 Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all bleidleisio drwy'r post. Gall unrhyw etholwr ddewis gwneud cais drwy'r post os bydd yn dymuno gwneud hynny, ar yr amod ei fod wedi'i gofrestru i bleidleisio neu ei fod wedi gwneud cais i gael ei gofrestru felly.[61] Yn ogystal â hyn, gall unrhyw un a benodwyd yn ddirprwy wneud cais i bleidleisio drwy'r post.[62]

Gwneud cais i bleidleisio drwy'r post

5.2 Rhaid gwneud cais am bleidlais bost yn ysgrifenedig, ond gall fod mewn unrhyw fformat: mae llythyr, ffacs, neges e-bost gyda llofnod wedi'i sganio ynddi neu ffurflen gais am bleidlais absennol yn dderbyniol, ar yr amod bod y wybodaeth am y manylion adnabod personol yn glir ac yn ddiamwys, a'i bod wedi'i rhoi yn y fformat a ragnodwyd yn y rheoliadau ac fel yr esbonnir yn Adran 1, 'Ceisiadau' uchod.

5.3 Rhaid cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn cais am bleidlais bost er mwyn iddo fod yn ddilys:[63]

- enw llawn yr etholwr
- dyddiad geni'r etholwr
- llofnod yr etholwr
- y cyfeiriad lle mae'r etholwr wedi'i gofrestru (neu wedi gwneud cais i gofrestru) i bleidleisio
- y cyfeiriad y dylid anfon y papur pleidleisio iddo, ac os yw'n gyfeiriad gwahanol i'r un lle mae'r etholwr wedi'i gofrestru (neu wedi gwneud cais i gofrestru) i bleidleisio, rhaid rhoi rheswm dros ailgyfeirio[64]
- p'un a yw'r cais am etholiad penodol, cyfnod penodol neu gyfnod amhenodol, ac os yw am gyfnod penodol dylai nodi'r cyfnod hwnnw
- p'un a yw ar gyfer etholiadau Seneddol, etholiadau lleol neu'r ddau

5.4 Rhaid i'r etholwr ddyddio'r cais hefyd.

5.5 Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol wirio'r llofnod a'r dyddiad geni ar ffurflen cais am bleidlais absennol yn erbyn unrhyw lofnod neu ddyddiad geni arall ar gyfer yr etholwr hwnnw sydd ganddo ef, yr awdurdod lleol y'i penodwyd ganddo, neu'r Swyddog Canlyniadau.[65]

---

[61] Paragraffau 3(1)(a) a 4(1)(a), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthyglau 8(1)(b) a 9(1)(b), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthyglau 9(1)(a) a 10(1)(a), Gorchymyn Senedd yr Alban.

[62] Paragraff 7, Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 12, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 12, Gorchymyn Senedd yr Alban.

[63] Rheoliad 51, RhCyB 2001; Paragraff 1, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 3, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

[64] Rheoliadau 51AA, RhCyB 2001; Paragraff 1(7), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 2, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 5, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

[65] Rheoliad 51A, RhCyB 2001; Paragraff 1(6), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1A, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 4,

Hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad ceisiadau i bleidleisio drwy'r post

5.6 Mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ysgrifennu at **bob** ymgeisydd i'w hysbysu o b'un a gafodd ei gais ei dderbyn neu ei wrthod.[66] Mae hwn yn ofynnol hyd yn oed os derbynnir y cais yn agos at y dyddiad cau ar gyfer etholiad penodol ac waeth p'un a yw'r cais ar gyfer un etholiad, cyfnod penodol neu'n amhenodol. Lle bo'r etholwr wedi gofyn i'w bleidlais bost gael ei hailgyfeirio a chaniatawyd hyn, rhaid nodi hyn yn y gydnabyddiaeth hefyd.[67] Pan fo'n bosibl, mae'n arfer da cydnabod ceisiadau i ailgyfeirio pleidleisiau post i'r cyfeiriad cofrestredig a'r cyfeiriad ailgyfeirio.

Ailgyfeirio papurau pleidleisio drwy'r post

5.7 Wrth wneud cais am bleidlais bost, gellir gofyn am i bapurau pleidleisio drwy'r post gael eu hanfon i gyfeiriad gwahanol i'r cyfeiriad cymhwyso, ar yr amod y rhoddir rheswm pam bod angen anfon eu papur pleidleisio i'r cyfeiriad hwnnw.[68]

5.8 Nid yw'r rheoliadau'n gwneud unrhyw ddarpariaeth i Swyddog Cofrestru Etholiadol wrthod cais os nad yw'n fodlon ar yr esboniad a roddwyd am ofyn am ailgyfeiriad. Yn sgîl hyn, argymhellir y dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, at ddibenion penderfynu ar geisiadau, dderbyn ceisiadau am bleidlais bost ar eu golwg os rhoddir esboniad am ailgyfeiriad. Dylid nodi bod y rheoliadau'n amodi bod yn rhaid i'r etholwr esbonio pam bod ei amgylchiadau'n golygu ei fod am i gyfeiriad amgen gael ei ddefnyddio: ni all ddweud, er enghraifft, 'am fod yn well gen i hynny'.[69]

5.9 Mae sawl rheswm pam bod unigolyn am i'w bleidlais bost gael ei hanfon i gyfeiriad amgen: efallai ei fod ar wyliau, yn yr ysbyty, anfonir ei bost i'w gyfeiriad gwaith, ac ati. Os nad esbonnir ei amgylchiadau, efallai y bydd Swyddog Cofrestru Etholiadol am wirio gyda'r etholwr a gofyn am esboniad, neu gallai ddewis gwrthod y cais ar sail y ffaith nad yw'n bodloni'r gofynion rhagnodedig, gan hysbysu'r etholwr yn unol â hynny.

5.10 Dylid monitro'r lefelau o ailgyfeirio pleidleisiau drwy ddirprwy a phleidleisiau post a gofyn i ymgeiswyr am ragor o wybodaeth, os bydd angen.

Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban) (dim ond yn erbyn unrhyw lofnod a roddwyd yn flaenorol i'r Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol y gellir gwirio llofnod).

[66] Rheoliad 57, RhCyB 2001; Paragraff 8, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 8, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 12, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

[67] Rheoliad 57(4A), RhCyB 2001; Paragraff 8(5), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliad 12(5), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

[68] Rheoliad 51AA, RhCyB 2001; Paragraff 1(7), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 2, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 5, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

[69] Rheoliadau 51AA(2) a 51(1B)(1), RhCyB 2001; Paragraff 1(7) a (8), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 2(3), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliadau 5(2) a 6(1), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

Mae'n bwysig i Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod yn wyliadwrus o ran patrymau sy'n datblygu o ran ceisiadau, yn arbennig pan fo cais i ailgyfeirio i gyfeiriad ar wahân i gyfeiriad cofrestredig yr etholwr. Os na fydd y rheswm dros unrhyw gais penodol yn peri amheuon oherwydd ei natur, neu oherwydd amgylchiadau eraill sy'n cysylltu'r cais ag eraill yn yr ardal neu gyfeiriad penodol, dylid hysbysu'r heddlu o hyn, hyd yn oed os na fydd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw resymau dros wrthod ceisiadau o'r fath. Yn arbennig, argymhellir y dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gytuno gyda phwynt cyswllt unigol ei heddlu ar nifer drothwy o geisiadau a gyfeirir i unrhyw un cyfeiriad, ac ystyried hysbysu'r heddlu os cyrhaeddir y trothwy hwn.

Newid enw

5.11 Pan fydd etholwr gyda phleidlais bost yn newid ei enw, dylid anfon cais am bleidlais bost newydd ato er mwyn casglu ei lofnod newydd, a all helpu i atal achos posibl o wrthod ei bapur pleidleisio. Byddai'r llofnod a roddir ar y cais newydd yn disodli ei gofnod blaenorol ar y cofnod manylion adnabod pleidleisiau post.

Newid neu ganslo trefniadau pleidleisio drwy'r post

5.12 Gall etholwr wneud cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar unrhyw adeg i ganslo ei bleidlais bost. [70]

5.13 Lle nad yw unrhyw etholwr wedi'i gofrestru mwyach o ran yr un cyfeiriad cymhwyso, neu lle bo'n cofrestru drwy ddatganiad yn hytrach na fel etholwr arferol neu i'r gwrthwyneb, daw unrhyw drefniadau pleidleisio absennol sy'n gysylltiedig â'r cofrestriad i ben.[71]

5.14 Gall unigolyn sy'n pleidleisio drwy'r post ar hyn o bryd ofyn, ar unrhyw adeg, am i'w bapurau pleidleisio drwy'r post gael eu hanfon i gyfeiriad gwahanol i'r un a geir yn y cofnod pleidleisio absennol, ar yr amod ei fod yn rhoi rheswm pam bod angen anfon ei bapur pleidleisio i'r cyfeiriad hwnnw.[72]

5.15 Gall unigolyn sy'n pleidleisio drwy'r post ofyn wedyn am gael newid i bleidleisio drwy ddirprwy ar ôl cyflwyno cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n bodloni'r gofynion rhagnodedig.[73]

[70] Paragraff 3(5)(a), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 8(5)(a), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 9(5)(a), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[71] Paragraff 3(5)(b), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 8(5)(c), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 9(5)(c), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[72] Rheoliad 51B, RhCyB 2001; Paragraff 1(8), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 2, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 6, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[73] Paragraff 3(6), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 8(6), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 9(6), Gorchymyn Senedd yr Alban.

6 Ildiadau

6.1 Pan na all ymgeisydd ddarparu llofnod, gall ofyn i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ildio'r gofyniad am i lofnod gael ei ddarparu. Rhaid i unrhyw gais o'r fath gynnwys y rheswm/rhesymau dros y cais, ynghyd ag enw a chyfeiriad unrhyw un sydd wedi cynorthwyo'r ymgeisydd i gwblhau'r cais.

6.2 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fodloni'i hun na all yr ymgeisydd roi llofnod neu lofnod cyson o ganlyniad i unrhyw anabledd neu'r anallu i ddarllen neu ysgrifennu.[74] Mae'n rhaid i lefel y prawf neu'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn bodloni'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod yn benderfyniad lleol, ond mae'r Comisiwn yn eu cynghori i fod yn effro i'r posibilrwydd y defnyddir yr ildiad fel ymdrech i osgoi'r mesurau diogelwch. Dylai'r polisi ar gyfer ymateb i geisiadau am ildiadau fod yn ddigon cadarn i sicrhau uniondeb y system bleidleisio tra'n caniatáu i etholwyr o'r fath fanteisio ar y system pleidleisio absennol.

6.3 Mae'r rheoliadau'n nodi y **gall** y Swyddog Cofrestru Etholiadol fodloni'i hun na all yr ymgeisydd roi llofnod neu lofnod cyson o ganlyniad i anabledd neu'r anallu i ddarllen neu ysgrifennu.[75] Felly, rhydd hyn bŵer ac nid dyletswydd. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y mesurau newydd yn gweithio i'r eithaf, ym marn y Comisiwn, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gymryd camau gweithredol er mwyn bodloni'i hun o hyn.

6.4 Gall rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod o'r farn mai dim ond os bydd ganddynt bryderon neu amheuon ynghylch y cais penodol hwnnw neu oherwydd bod patrwm o geisiadau o'r fath sy'n codi amheuon y bydd angen iddynt arfer y pŵer hwn. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn cynghori y dylid arfer y pŵer hwn yn fwy cyson a rheolaidd, ac y dylid cymhwyso'r un camau at bob cais i ganiatáu ildiad.

6.5 Nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi'r camau y gall Swyddog Cofrestru Etholiadol fod am eu cymryd er mwyn bodloni'i hun o ran hyn. Nid yw, er enghraifft, yn cyflwyno gweithdrefn ardystio, fel sy'n bodoli ar gyfer rhai mathau o bleidleisio drwy ddirprwy.

6.6 Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod enw a chyfeiriad y sawl sy'n cynorthwyo'r etholwr sy'n gofyn am yr ildiad yn cael eu rhoi.[76] Ym marn y Comisiwn, rhydd hyn gyfle am broses syml y gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol ei dilyn i fodloni'i hun o ran y rheoliadau. Er enghraifft, gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ofyn i'r unigolyn sy'n cynorthwyo'r ymgeisydd gadarnhau, hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred, na all yr etholwr dan sylw roi llofnod neu lofnod cyson o ganlyniad i unrhyw anabledd neu'r anallu i ddarllen

[74] Paragraffau 3(8), 4(5) a 7(11), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthyglau 8(8), 9(5) a 12(12), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthyglau 9(7), 10(7) a 12(7), Gorchymyn Senedd yr Alban.
[75] Rheoliad 51A, RhCyB 2001; Paragraff 1(6), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1A, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.
[76] Rheoliad 51(2)(f), RhCyB 2001; Paragraff 1(1)(f), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 1(1)(f), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.

neu ysgrifennu. Gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol roi hyn ar ffurf datganiad syml y gallai'r unigolyn sy'n cynorthwyo'r etholwr ei lofnodi.

6.7 Yn sgîl unrhyw ddatganiad o'r fath, efallai y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd am ystyried tynnu sylw at y drosedd o roi gwybodaeth anwir mewn perthynas â chais am bleidlais absennol.[77] Trosedd ddiannod yw hon sydd â chosb fwyaf o chwe mis o garchar a/neu ddirwy o £5,000.

Gallai datganiad o'r fath fod ar y ffurf ganlynol:

Blwch enghraifft 1: Datganiad enghreifftiol

Ni all yr etholwr a enwir uchod roi llofnod cyson o ganlyniad i:

- anabledd
- anallu i ddarllen neu ysgrifennu

Enw'r unigolyn sy'n cynorthwyo'r etholwr ……
Cyfeiriad yr unigolyn sy'n cynorthwyo'r etholwr …….
Llofnod yr unigolyn sy'n cynorthwyo'r etholwr
……..
Dyddiad y datganiad ……

Noder: Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth anwir i Swyddog Cofrestru Etholiadol mewn perthynas â chais am bleidlais drwy'r post neu bleidlais drwy ddirprwy.

6.8 Cred y Comisiwn y byddai hyn yn fesur rhesymol y gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ei ddefnyddio er mwyn cael ei fodloni o dan Reoliad 51A(b).

6.9 Dylai unrhyw Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n ystyried paratoi ffurflenni a datganiadau i'w cwblhau gan yr etholwr ei hun gofio os na all etholwr roi llofnod neu lofnod cyson, efallai na fyddent yn gallu cwblhau unrhyw ffurflenni ychwanegol, ac y gallai rhoi ffurflenni o'r fath iddynt beri gofid neu ddryswch. Nid oes gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol unrhyw bŵer i ymchwilio i natur neu ddifrifoldeb anabledd etholwr nac i wneud dyfarniadau meddygol arnynt.

6.10 Gall rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod yn ystyried defnyddio system ardystio i roi sicrwydd o ran geirwiredd y cais am ildiad. Cydnabyddwn y darperir ar gyfer ardystiad o'r fath yn benodol yn achos dirprwy parhaol fel y modd y dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fodloni ei hun, ond ni chynhwyswyd darpariaeth o'r fath ar gyfer ildiad i ddarparu manylion adnabod pleidleisiwr absennol, ac felly nid argymhellir defnyddio ardystiad o'r fath.

6.11 Ni all Swyddogion Cofrestru Etholiadol 'ymchwilio' i geisiadau am ildiadau. Ym marn y Comisiwn, mae pŵer y Swyddog Cofrestru Etholiadol wrth benderfynu ar gais am ildiad yn gyfyngedig i gymryd camau rhesymol i

[77] Adrannau 13D a 62B, DCyB 1983; Erthygl 14, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 28, Gorchymyn Senedd yr Alban.

fodloni'i hun na all yr ymgeisydd roi llofnod na llofnod cyson o ganlyniad i'w anabledd neu anallu i ddarllen neu ysgrifennu, fel yr amlinellir uchod.

6.12 Mae'n bwysig i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gofio mai eu penderfyniad hwy yw p'un a ddylid caniatáu ildiad, ac os nad ydynt yn fodlon ar ddilysrwydd y cais yn dilyn unrhyw ymholiad priodol, dylid ei wrthod. Os gwrthodir cais am ildiad, yna rhaid gwrthod cais am bleidlais absennol a hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o'r rhesymau dros y penderfyniad. Fodd bynnag, os yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon ar yr ildiad a'r cais ategol am bleidlais absennol, yna rhaid rhoi cadarnhad ysgrifenedig i'r etholwr o'r ffaith ei fod yn eu derbyn.

6.13 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol barhau i fod yn wyliadwrus o ran unrhyw dueddiadau a allai ddod i'r amlwg drwy gael ceisiadau am ildiad. Dylai unrhyw dueddiadau megis nifer fawr o geisiadau a gynorthwywyd neu a lofnodwyd gan un unigolyn heb unrhyw esboniad credadwy, neu nifer fawr o geisiadau gan un stryd neu ardal heb unrhyw esboniad credadwy (megis y math o drigolion yn y lleoliad hwnnw), godi amheuon. Mae'r Comisiwn yn fodlon trafod unrhyw bryderon sydd gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar y pwynt hwn.

7 Marcio cofrestrau gorsafoedd pleidleisio

7.1 Ar ôl prosesu'r holl geisiadau a ganiateir a chwe diwrnod cyn yr etholiad, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol baratoi'r cofrestrau etholiadol y bwriedir eu defnyddio yn y gorsafoedd pleidleisio yn yr etholiad hwnnw.

7.2 Mae'n rhaid marcio'r llythyren 'A' wrth ochr enwau'r etholwyr sydd wedi cael caniatâd i bleidleisio drwy'r post ac etholwyr y mae eu dirprwyon wedi cael caniatâd i bleidleisio drwy'r post, a hynny ar y gofrestr y bwriedir ei defnyddio yn yr orsaf bleidleisio.

7.3 Diben y gofyniad hwn yw atal papur pleidleisio rhag cael ei roi i etholwr yn yr orsaf bleidleisio pan fo papur pleidleisio eisoes wedi'i anfon ato yn y post. Ni waeth beth y bydd etholwyr yn ei ddweud yn yr orsaf bleidleisio o ran y ffaith na ddosbarthwyd eu papur ac ati, ni ddylid rhoi ail bapur iddynt.[78] Fodd bynnag, gellir rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd i etholwyr o'r fath o dan rai amgylchiadau rhagnodedig.

7.4 Gall y rhan fwyaf o becynnau meddalwedd etholiadol argraffu cofrestrau i'w defnyddio'n arbennig yn yr orsaf bleidleisio mewn etholiad penodol. Argreffir y cofrestrau hyn fel arfer gyda'r llythyren 'A' wedi'i marcio arnynt er mwyn tynnu sylw atynt.

7.5 Nid oes angen nodi unrhyw farciau ar gofrestrau'r orsaf bleidleisio o ran dirprwyon. Rhaid paratoi rhestr ar wahân o ddirprwyon, yn cynnwys yr etholwyr hynny sydd wedi penodi dirprwy ac enwau a chyfeiriadau'r sawl a benodwyd yn ddirprwyon iddynt.[79]

[78] Paragraffau 2(2) a 7(2), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthyglau 7(2) a 12(2), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthyglau 8(2) a 12(2), Gorchymyn Senedd yr Alban.

[79] Paragraff 5(3), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthygl 10(3), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthygl 10(5)(b), Gorchymyn Senedd yr Alban.

8 Cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol

Dyletswydd i gynnal cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol

8.1 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gadw cofnodion o'r ceisiadau hynny am bleidleisiau absennol a ganiatawyd. Mae angen tri chofnod ar wahân, fel a ganlyn:[80]

Pleidleiswyr drwy'r post	Mae'n rhaid i'r cofnod nodi enw llawn yr etholwr a'i rif etholwr, a'r cyfeiriad yr anfonir y papur pleidleisio iddo.
Dirprwyon	Mae'n rhaid i'r cofnod nodi enw llawn yr etholwr a'i rif etholwr, ac enw llawn a chyfeiriad y dirprwy.
Dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post	Mae'n rhaid i'r cofnod nodi enw llawn yr etholwr a'i rif etholwr, ac enw llawn y dirprwy a'r cyfeiriad yr anfonir y papur pleidleisio iddo.

8.2 Mae angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd gadw rhestr o'r holl fanylion adnabod personol, sy'n cynnwys enw, llofnod a dyddiad geni pob unigolyn sydd â phleidlais absennol. Ni ddylid cynnwys y rhestr o wybodaeth am fanylion adnabod personol yn y copïau o'r rhestrau a chofnodion y gellir eu rhoi i bobl benodol nac mewn unrhyw gofnodion neu restrau sydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

8.3 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sicrhau bod y cofnodion a'r rhestrau'n gywir, a dylai gymryd camau i sicrhau bod etholwyr y nodwyd eu bod wedi symud neu wedi marw yn cael eu dileu o'r cofnodion a'r rhestrau pleidleiswyr absennol ar ôl gwneud yr ymholiadau priodol. Ar ôl cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig erbyn 1 Rhagfyr bob blwyddyn, efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am gynnal adolygiad o'u rhestrau pleidleisio absennol, gan wirio enwau a chyfeiriadau yn erbyn y gofrestr ddiwygiedig.

Cyflenwi ac archwilio cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol

Mae rhagor o wybodaeth am ddarparu ac archwilio cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol ar gael yn Rhan F, 'Gweld y gofrestr a'i darparu', Adran 6, 'Cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol'.

[80] Paragraffau 5 a 7(8), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthyglau 10 a 12(8), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Erthyglau 10(5) a 12(7), Gorchymyn Senedd yr Alban.

9 Materion uniondeb

9.1 Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau mewn sefyllfa unigryw i nodi achosion a phatrymau gweithgaredd a allai fod yn arwydd o gamymddygiad etholiadol.

9.2 Mae'r dyfarniad mewn dau achos deiseb etholiad lleol yn Birmingham yn 2004 yn egluro nad rôl y Swyddog Canlyniadau yw ymchwilio i dwyll posibl:

> 'Nid oes unrhyw ddyletswydd ar y Swyddog Canlyniadau i ymchwilio i droseddau etholiadol ac nid oes ganddo unrhyw adnoddau i wneud hynny ychwaith. At hynny... nid oes gan y Swyddog Canlyniadau unrhyw bŵer i ymchwilio.'[81]

9.3 Ailgadarnheir hyn ym Mharagraffau 142 a 143 o'r dyfarniad, ac mae paragraff 142 hefyd yn cwmpasu rhai o swyddogaethau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng pwerau'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i 'ymchwilio' i b'un a yw cais yn ddilys ac ymchwiliadau mwy cyffredinol i droseddau etholiadol, y gellid ystyried eu bod yn cynnwys cyfweld â phobl yn ffurfiol a chymryd datganiadau. Cyfrifoldeb yr heddlu yw ymchwiliadau ffurfiol o'r fath.

9.4 Er hyn, os oes gan unrhyw Swyddog Cofrestru Etholiadol neu Swyddog Canlyniadau bryderon am geisiadau twyllodrus, neu amheuon am weithgarwch twyllodrus, neu os byddant yn clywed am unrhyw honiadau am dwyll posibl yn ymwneud â phleidleisio absennol, dylid hysbysu'r heddlu o'r rhain er mwyn ymchwilio iddynt ymhellach. Dylai cysylltu â'r Pwynt Cyswllt Unigol yn yr heddlu ar gam cynnar gwmpasu'r camau i'w cymryd os cyfyd unrhyw amheuon.

Pleidleisio drwy'r post, tai mewn amlddaliadaeth a sefydliadau amlddaliadaeth eraill

9.5 Ceir canfyddiad ei bod yn haws cyflawni twyll etholiadol mewn tai mewn amlddaliadaeth a sefydliadau eraill sy'n cynnwys mwy nag un etholwr. Un enghraifft bosibl o ganfyddiad o'r fath fyddai unrhyw ofn a fynegir y gellid dylanwadu'n ormodol ar breswylwyr mewn cartrefi nyrsio, cartrefi gofal a llety gwarchod arall sy'n dibynnu ar ofalwyr am gymorth neu y gellid dwyn eu pleidlais.

9.6 Mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi cydnabod y gellir gofyn i staff sy'n ymweld â chartrefi a staff gofal helpu i gwblhau ceisiadau am bleidleisiau absennol, ac y bydd gan bob un fynediad i etholwyr niferus. Gall fod o ryw fudd felly, er mwyn osgoi amheuaeth, i gynnig cyngor i staff gofal o'r fath o ran yr ymateb y dylent ei roi os bydd etholwyr o'r fath yn cysylltu â hwy. Yn arbennig, dylid egluro nad yw pŵer atwrnai yn galluogi rhywun i bleidleisio ar ran rhywun arall.

---

[81] Paragraff 139 o'r dyfarniad llawn, *In the matter of a local government election for the Bordesley Green Ward of the Birmingham City Council held on 10 June 2004 and in the matter of a local government election for the Aston Ward of the Birmingham City Council held on 10 June 2004*. Gweler www.hmcourts-service.gov.uk/cms/2384.htm

10 Adnoddau

Cyfarwyddiadau i aelodau o staff dros dro sy'n gysylltiedig â derbyn a gwirio ffurflenni cais pleidleisiau absennol

1 Er mwyn bodloni'r dyddiadau cau statudol a sicrhau y caiff pob papur pleidleisio drwy'r post ei anfon i'r cyfeiriad cywir, mae'n allweddol bod pob ffurflen gais yn cael ei gwirio'n fanwl a bod unrhyw gwestiynau'n cael eu cyfeirio at eich goruchwyliwr. Peidiwch â thybio dim.

2 Wrth eu derbyn, dylid rhoi stamp dyddiad ar bob un o'r ffurflenni cais a dylid ychwanegu'r amser derbyn os yw hyn yn allweddol. Y dyddiadau cau ar gyfer derbyn yw 5pm, 11 diwrnod gwaith cyn yr etholiad ar gyfer ceisiadau pleidleisio drwy'r post a 5pm, chwe diwrnod gwaith cyn yr etholiad ar gyfer ceisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy. Os dosberthir ffurflenni cais â llaw, gellid gofyn i'r ymgeisydd aros tra bo'r ffurflen gais yn cael ei gwirio.

3 Dylid sicrhau bod yr etholwr wedi'i gynnwys ar y gofrestr yn y cyfeiriad a ddangosir ar y ffurflen neu ei fod wedi gwneud cais i gofrestru i bleidleisio yn y cyfeiriad hwnnw ac nad yw'r cais wedi'i atal na'i wrthod. Os caiff ei ddangos, gellir ysgrifennu llythrennau a rhifau'r etholwr ar y ffurflen ar unwaith. Os na chaiff ei ddangos ar y gofrestr, mae'n bosibl mai'r 'cyfeiriad ar y papur pleidleisio' a ddangosir mewn rhan wahanol o'r ffurflen yw cyfeiriad cymhwyso'r etholwr mewn gwirionedd. Cadarnhewch hynny, ac os felly, derbyniwch y ffurflen. Mae'n arfer da gwneud hynny, gan y byddai ei gwrthod, yn syml, am fod y cyfeiriad yn y lle anghywir ar y ffurflen yn gymhwysiad llym diangen o'r ddeddfwriaeth.

4 Os yw cyfenw'r etholwr yn wahanol i'r hyn a ddangosir ar y gofrestr, ond bod yr enwau cyntaf yr un peth, mae'n fwyaf tebygol bod y cyfenw wedi newid ers i'r gofrestr gael ei diwygio (er enghraifft, drwy briodas). Mae'n arfer da ffonio'r ymgeisydd i gadarnhau'r newid enw ac i nodi canlyniad yr alwad ar y ffurflen gais. Os na allwch gysylltu â'r etholwr dros y ffôn, cysylltwch ag ef drwy lythyr. Dylid hefyd anfon cais i gofrestru o dan ei enw newydd fel y gellir addasu'r gofrestr.

5 Os dangosir enwau cyntaf yr etholwr drwy lythrennau cyntaf yn unig ac nid yn llawn, dylid cadarnhau hyn gyda'r etholwr dros y ffôn. Unwaith eto, dylid nodi canlyniad yr alwad ar y ffurflen gais, ac os na allwch gysylltu â'r etholwr dros y ffôn, dylech gysylltu ag ef drwy lythyr.

6 Os yw'r cais yn un am bleidlais drwy ddirprwy, gofynnwch am y rheswm a'r ardystiad os bydd angen. Os na chaiff ei ardystio lle bo angen ardystiad neu os na chaiff ei ardystio'n briodol, rhaid ei wrthod. Dylid hysbysu'r etholwr drwy lythyr a hefyd dros y ffôn os yw'n bosibl er mwyn trefnu bod cais newydd yn cael ei anfon.

7 Cadarnhewch 'gyfeiriad y papur pleidleisio'. Os yw etholwr am i'w bapur pleidleisio gael ei anfon i gyfeiriad gwahanol i'w gyfeiriad cofrestredig, dylai roi rheswm dros hynny. Os na roddir rheswm, rhaid gwrthod y cais. Dylid

hysbysu'r etholwr drwy lythyr. Os nad ydych yn siŵr a yw'r rheswm yn ddilys, gofynnwch i'ch goruchwyliwr.

8 Er y gellir anfon papurau pleidleisio dramor, yn aml, prin iawn yw dealltwriaeth yr etholwr, os o gwbl, o'r amserlenni ar gyfer argraffu a chyhoeddi pleidleisiau post. Byddai arfer da yn awgrymu galwad ffôn i gadarnhau ei fod yn deall na ellir gwarantu y bydd ei bapur pleidleisio yn cyrraedd cyrchfan tramor mewn da bryd i'w gwblhau a'i ddychwelyd erbyn y diwrnod pleidleisio, ac i hysbysu'r etholwr o'r broses amgen o bleidleisio drwy ddirprwy.

9 Os na ddangosir 'cyfeiriad y papur pleidleisio', mae'n rhesymol tybio bod yr etholwr am i'r papur pleidleisio gael ei anfon i'r cyfeiriad cymhwyso, ac y dylid caniatáu'r cais ar y sail honno.

10 Dylid cadarnhau bod manylion y dirprwy (os yw'n gymwys) wedi'u cwblhau'n briodol ac yn glir, a bod naill ai'r dirprwy wedi nodi ei fod yn cydsynio i gael ei benodi fel dirprwy drwy lofnodi a dyddio'r blychau priodol, neu fod yr etholwr wedi datgan bod y dirprwy'n fodlon pleidleisio ar ei ran a'i fod yn gallu gwneud hynny.

11 O bryd i'w gilydd, derbynnir ffurflenni cais sy'n dangos cyfeiriad papur pleidleisio ac enw a chyfeiriad dirprwy, yn cynnwys cydsyniad y dirprwy. Mae hyn fel arfer am nad yw'r etholwr wedi deall y gwahaniaeth rhwng pleidlais bost a phleidlais drwy ddirprwy, ac am ei fod wedi llenwi'r holl flychau. Yn achlysurol iawn, efallai mai ffordd yr etholwr o ddweud wrth y Swyddog Cofrestru Etholiadol bod y dirprwy am bleidleisio drwy'r post yw'r 'cofnod dwbl' hwn. Rhaid cyfeirio ffurflenni a gwblheir yn y ffordd hon bob amser at eich goruchwyliwr, a fydd yn cysylltu â'r etholwr dros y ffôn neu drwy lythyr ac yn cymryd y camau gweithredu priodol, yn dibynnu ar y wybodaeth a dderbynnir.

12 Rhaid dychwelyd ffurflenni nad ydynt yn cynnwys llofnod, dyddiad geni'r etholwr a/na'r dyddiad at yr etholwr. Dylid hysbysu'r etholwr drwy lythyr. Fodd bynnag, os derbynnir y ffurflen yn agos at y dyddiad cau, gall fod yn ddefnyddiol cysylltu â'r etholwr mewn ffordd arall, megis dros y ffôn neu drwy e-bost os yw wedi rhoi manylion cyswllt o'r fath, er mwyn ceisio sicrhau bod ffurflen yn cael ei chwblhau'n gywir a'i dychwelyd cyn y dyddiad cau. Dylid trosglwyddo unrhyw gais nas llofnodwyd ond a ategir gan ddatganiad sy'n rhoi rhesymau pam na allai'r etholwr ei lofnodi ac sydd hefyd yn rhoi enw a chyfeiriad yr unigolyn a gynorthwyodd yr etholwr i gwblhau'r cais, i'ch goruchwyliwr.

13 Dylid sicrhau bod yr etholwr wedi nodi am ba hyd y mae am i'w bleidlais absennol bara a'r math o etholiadau y mae am gael pleidlais absennol ar eu cyfer; os na, dylid cadarnhau hyn gyda'r etholwr dros y ffôn. Unwaith eto, dylid nodi canlyniad yr alwad ar y ffurflen gais. Os na allwch gysylltu â'r etholwr dros y ffôn, cysylltwch ag ef drwy lythyr.

14 Unwaith y bydd yr holl ffurflenni cais wedi'u prosesu, rhannwch y ffurflenni'n bedwar pentwr:

(a) y ffurflenni hynny sydd ag ymholiadau na ellir eu datrys dros y ffôn

(b) y ffurflenni hynny sy'n geisiadau am bleidlais drwy'r post am gyfnod amhenodol/penodol

(c) y ffurflenni hynny sy'n geisiadau am bleidlais drwy ddirprwy am gyfnod amhenodol/penodol

(ch) y ffurflenni hynny sydd naill ai'n geisiadau am bleidlais bost neu'n geisiadau am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiad penodol

15 Gan gymryd pob pentwr yn ei dro, cofnodwch y manylion ar y system gyfrifiadurol gan greu'r llythyr priodol fel y bo angen.

16 Rhaid prosesu'r llythyrau sy'n ymwneud â cheisiadau yng nghategori (a) uchod yn gyntaf, a phostio'r llythyrau drwy bost dosbarth cyntaf y diwrnod hwnnw, lle y bo'n bosibl.

17 Lle y caniatawyd cais am bleidlais drwy ddirprwy, rhaid i chi hysbysu'r etholwr drwy lythyr ac anfon hysbysiad ar wahân at y dirprwy. Lle y cafodd cais am bleidlais bost ei ganiatáu neu ei wrthod, rhaid i chi hysbysu'r etholwr drwy lythyr.

18 Dylid ffeilio'r ffurflenni yng nghategori (a) yn y ffeil ymholiadau yn nhrefn y dosbarth etholiadol/cyfenw yn nhrefn yr wyddor.

19 Dylid ffeilio'r ffurflenni yng nghategorïau (b) ac (c) yn ffeil y dosbarth etholiadol priodol yn nhrefn rhif etholwr.

20 Dylid ffeilio'r ffurflenni yng nghategori (ch) yn y ffeil dros dro yn nhrefn y dosbarth etholiadol/cyfenw yn nhrefn yr wyddor.

21 Rhaid gwrthod ffurflenni ar gyfer etholiad penodol a dderbynnir ar ôl y dyddiad/amser cau. Dylid hysbysu'r etholwr drwy lythyr.

22 Gellir derbyn ffurflenni ar gyfer cyfnod amhenodol/penodol ar ôl y dyddiad cau ar gyfer etholiad penodol ar gyfer etholiadau yn y dyfodol. Dylid hysbysu'r etholwr drwy lythyr.

23 Y nod yw cwblhau'r dasg o brosesu'r holl ffurflenni o fewn y diwrnod gwaith y cânt eu derbyn, a bydd eich goruchwyliwr yn rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer dyrannu gwaith ymysg staff er mwyn cyflawni hyn.